**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 10fed Rhagfyr 2024 am 7.30pm yn Neuadd Felinfach.**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Melinda Williams (Cadeirydd), Gerwyn Owen, Alan Henson, Lyn Williams, Lynford Thomas, Glyn Davies , Hywel Ifans, Dan Evans,

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cyng. Haf Hughes, Harry Williams, Johnny Davies
2. **PERSONOL - Dim materion personol**
3. **DATGELU BUDDION PERSONOL**
   i. Rhoddion – Neuadd Dihewyd Y Cyng. Gerwyn Owen, Hywel Ifans
4. **CADARNHAU COFNODION 12/11/24**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson a'u derbyniwyd yn unfrydol.
5. **MATERION YN CODI**

   **7.f. Cyfrif Banc.** Y Clerc wedi dechrau gwneud ymholiadau ond dim pendant i adrodd hyd yma.

   **11iv Tachwedd:** Di-wifr pentrefi: Y Cyng. Hywel Ifans I gyflwyno adroddiad yn y cyfafod nesaf.
6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR:** Y Cyng. Ceris Jones ar famolaeth.
7. **CYLLID**
   a. Tal y Clerc mis Tachwedd £217.84
   b. Sianti : £35 am blac Gwobr y Gymuned
   c. bccIT £72 (yn cynnwys TAW) : Anti-virus y cyfrifiadur
   d. Cytunwyd i drosglwyddo £144 o Gostau Etholiad i Gostau Gwefan gan nad oedd digon wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost gweinyddu.
   e. **Cyllideb Ddrafft 2025-26.** Dosbarthwyd taflen a thrafodwyd y gyllideb ddrafft gan dynnu sylw at rai mân newidiadau. Yn sgil cais ariannol sydd wedi dod gerbron am gefnogaeth i gwrdd â chost padiau newydd i ddiffibrilwyr trafodwyd neilltuo swm o arian yn flynyddol tuag at y gwaith hwn. Derbyniwyd yr egwyddor a chynigiwyd y swm o £150.00 gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Williams
   Yn dilyn trafodaeth ac ar gynnig y Cyng. Alan Henson a'r eilydd y Cyng. Gerwyn Owen **penderfynwyd** derbyn y gyllideb ddrafft yn unfrydol ac i gynnig am Praesept o £9950.00 ar gyfer 2025/26.

## 8. RHODDION

i. **£150.00 Neuadd Bentref Dihewyd –** Padiau Diffib Cynigiwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Williams
ii. **£100.00 Urdd Gobaith Cymru Ceredigion**. Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Williams
iii. **£25.00 Urdd Gobaith Cymru – Cronfa Cyfle i Bawb.** Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Lynford Thomas.
iv. **£100.00 PTA Ysgol Bro Pedr**: Cynigiwyd gan y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan y Cyng. Glyn Davies.
v. **£125.00 Eisteddfod Dihewyd.** Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Lynford Thomas

## 9. CYFARFOD Y CYNGOR SIR Â CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd. Cafwyd cyflwyniadau gan Eifion Evans y Prif Weithredwr wnaeth alw unwaith eto am gefnogaeth gan y Cynghorau Tref a Chymuned i fabwysiadu gwasanaethau. Cafwyd adroddiad ariannol drylwyr gan Duncan Hall, y Prif Swyddog Cyllid ac Alan Morris Prif Swyddog Corfforaethol a TG.

## 10. GOHEBIAETH

I. Derbyniwyd neges gan Leighton Jones o Lywodraeth Cymru yn cadarnhau ei fod wedi derbyn y llythyr ynglŷn â'r newidiadau i'r ffiniau.

II. Nodyn o ddiolch gan Ysgol Gyfun Aberaeron am y rhodd o £250.00 tuag at y Sioe Gerdd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd.

III. Derbyniwyd neges gan Gymdeithas y Cymod yn dilyn am y cyfraniad o £5.00 tuag at gost postio'r pabis gwyn.

IV. Llythyr gan Gyngor Sir Ceredigion yn gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer dyfodol ysgolion yr ardal sy'n cau yn sgil agoriad Ysgol Dyffryn Aeron. Bydd angen cyflwyn unrhyw syniadau erbyn y 31ain o Ionawr ac i ymgysylltu â'r Clerc os bydd angen trafod unrhyw syniadau.

V. Cynhelir hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i BAWB ar Nos Fawrth, 11fed Chwefror 2025 am 6.00pm. Penderfynwyd cynnal y cyfarfod ar y cyd yn Neuadd Felinfach ac i gynnal y cyfarfod misol yn dilyn yr hyfforddiant. Cyfarfod mis Mawrth i'w gynnal yn Neuadd Dihewyd.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

a. **Mesurau Atal Cyflymder Ysgol Bro Aeron.** Tynnodd y Cyng. Glyn Davies sylw at nifer o gwynion oedd wedi dod i law am uchder yr 'humps'! **Penderfynwyd** ysgrifennu at y Sir i nodi'r mater hwn ac i ofyn pe bai modd defnyddio'r model o fesurau sydd wedi eu gosod tu fas i Ysgol Henry Richard.

b. **Mesur Cynllunio A240850.** Er nad oedd y Cyngor hwn wedi derbyn gwybodaeth am y cais cynllunio hwn am felin wynt ar ben Tychrug, gofynnodd y Cyng. Dan Evans pe bai modd gwneud ymholiadau pellach**.** **Penderfynwyd** cysylltu â'r Adran Gynllunio i weld a ydi'r ymgynghoriad yn ymestyn i blwyfi cyfagos.

c. Yn dilyn datganiad gan Ben Lake AS yn y Senedd yn dilyn storm Darragh am y diffyg yn y cyflenwadau ffôn yn yr adaloedd gwledig yn sgil (a) newid systemau ffôn i ddigidol a (b) diffyg signal ar gyfer ffonau symudol ar gais y Cyng. Hywel Ifans **penderfynwyd** ysgrifennu at Elin Jones AS yn gofyn iddi hithau wneud datganiad tebyg gan nodi nad oes gan bobol – a'r rhai bregus yn benodol – unrhyw ffordd o gysylltu â theulu, ffrindiau na'r gwasanaethau brys, mewn achos o argyfwng.

d. **Cyflymder Traffig Cribyn**. Yn dilyn cais gan un o drigolion Cribyn gofynnodd y Cyng. Lyn Williams pe bai modd cyflwyno cais i godi'r cyflymder traffig drwy'r pentref o 20 i 30. **Penderfynwyd** byddai'r Clerc i wneud ymholiadau ar statws yr adolygiad sydd yn digwydd ar hyn o bryd.

**12. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF Chwefror 11eg Neuadd Felinfach am 6.00 o'r gloch.**

**Yn dilyn y cyfarfod cyflwynwyd Gwobr y Gymuned I Drefnwyr Taith Tractors Dyffryn Aeron.**